# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Hydref 2020** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddogion Cyswllt:** | **Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Gweithlu Gwasanaethau Gofal Oedolion** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet –

- gymeradwyo dyrannu hyd at £375,000 o adnodd un-tro (wedi'i ddadansoddi yn y tabl o dan rhan 4 o'r adroddiad) i gyllideb 2020/21 yr Adran Oedolion, ynghyd â £390,000 pellach o adnodd un-tro i gyllideb 2021/22, gydag union swm y dyraniadau i'w adolygu ar ddiwedd y ddwy flynedd ariannol berthnasol.
- gefnogi'r bwriad i wario'r gyllideb ychwanegol uchod ar gost cyflogi gweithlu y tu hwnt i lefelau cyllidebau staffio arferol, er mwyn ymateb i gynnydd anochel mewn galw am wasanaeth gofal cymdeithasol i ddiogelu pobl Gwynedd, a llenwi bylchau staffio sy'n ymddangos o ganlyniad i Covid19.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Y mae angen cynyddu maint y gweithlu gofal ym maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder gweithlu i sicrhau parhad gwasanaeth yn y tymor byr, ac er mwyn medru cynllunio i ymateb i ail don o'r feirws Covid19 allai ein taro.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi paratoi Cynllun Gweithlu i grynhoi'r materion gweithlu sydd angen sylw penodol o ganlyniad i'r pandemig Covid19. Bwriad yr adroddiad hwn yw crynhoi'r prif negeseuon o'r cynllun hwnnw, a gofyn i'r Cabinet gymeradwyo gwariant i gyfarch elfennau o gostau gweithlu posibl y gall y Cyngor eu hwynebu.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

4.1 Dros y 6 mis diwethaf, ers cychwyn y pandemig Covid19 yn y DU, y mae'r darparwyr gofal yng Ngwynedd (yn y sector fewnol a'r un allanol) wedi ymdopi yn rhyfeddol o dda i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, er enghraifft:

- Defnydd o staff asiant
- Penodiadau o'r newydd yn ychwanegol i'r sefydliad (ee drwy'r Tîm Swyddi Covid a'r bas data gweithlu Covid19 a sefydlwyd ym mis Mawrth 2020)
- Llai o breswylwyr yng nghartrefi preswyl y Cyngor
- Rhywfaint o staff gofal dydd wedi eu harallgyfeirio i wasanaethau eraill
- Rheolwyr gwasanaethau gofal wedi gwneud gwaith rheng flaen
- Staff arferol wedi gweithio oriau ychwanegol
- Lefel isel iawn o absenoldebau oherwydd gwyliau.

4.2 Er hynny, gwyddom y bydd cryn bwysau ar y gwasanaethau gofal fydd yn gwneud sefyllfa'r gweithlu yn fregus iawn. Mae'r Cynllun Gweithlu wedi ystyried effaith y canlynol ar yr anghenion gweithlu :

- Ail agor gwasanaethau dydd ac ysbaid sydd wedi bod ar gau
- Ail gychwyn gofal pobl fuodd yn cael cynhaliaeth gan eu teuluoedd neu ffrindiau am gyfnod
- Absenoldebau ymysg y gweithlu am eu bod yn sâl gyda Covid19, yn cysgodi neu'n gorfod hunan ynysu
- Sicrhau gweithlu wrth gefn digonol i ganiatáu i bobl na chafodd ddim, neu fawr ddim gwyliau, rhwng Mawrth a Gorffennaf, gymryd eu gwyliau
- Rhestrau aros am ofal cartref ar gynnydd, a'r pwysau i gynnig gofal cartref er mwyn i bobl fedru gadael yr ysbyty yn dwysau
- Gofynion y 'Fframwaith Adsefydlu Genedlaethol' (dogfen a baratowyd mewn ymateb uniongyrchol i sefyllfa Covid19 er mwyn cynllunio gwasanaethau i bobl fydd angen gofal yn sgîl y feirws)
- Yr angen i staffio i lefelau digonol pe bai angen capasiti ymchwydd ('surge capacity') i ofalu am bobl sydd yn wael, neu wedi bod yn wael, gyda Covid19.

4.3 Mae'r paragraffau dilynol yn ymhelaethu rhywfaint ar yr agweddau y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant ynghlwm â nhw. Byddai sicrhau'r cyllid yn caniatáu i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ymateb yn rhagweithiol er mwyn ceisio sicrhau gweithlu digonol i wynebu'r her sy'n debygol o fodoli dros y misoedd nesaf. Byddai hynny, yn ei dro, yn sicrhau ein bod yn cyfarch ein pwrpas sef 'helpu pobl i fyw eu bywydau fel y mae nhw'n dymuno eu byw', a hefyd yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol o ran darparu gwasanaethau gofal.

<u>Absenoldebau gweithlu oherwydd salwch Covid19</u>
4.4 Ffactor allweddol i'w hystyried yw'r risg y gall staff fod yn absennol oherwydd eu bod yn sâl gyda Covid19, neu'n gorfod hunan ynysu. Mae gwaith wedi'i wneud i ddadansoddi ar sail data modelu cenedlaethol sy'n ceisio rhoi'r 'amcangyfrif gorau o'r sefyllfa ar ei gwaethaf'.

4.5 Ar hyn o bryd, mae lefelau absenoldeb salwch oherwydd Covid19 ymysg y gweithlu gofal mewnol yn llai na 0.5%. Y mae 4.4% o'r gweithlu wedi bod yn cysgodi, ond y mae'r mwyafrif bellach yn ôl wrth eu gwaith.

4.6 Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn credu ei bod yn rhesymol i'r Cyngor gynllunio ar sail absenoldebau oherwydd Covid19 ar lefelau rhwng 1% a 2% o'r gweithlu gofal ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'n amhosibl gwybod beth yn union fydd y sefyllfa, ond mae'r hyn a welwyd yn ystod y don gyntaf o achosion Covid yn rhoi sail i'r canfyddiad hwn.

4.7 Mae'r rhagamcanion gorau yn dangos bod angen adnabod **£60,000** yn ystod eleni (2020/21) er mwyn medru ôl-lenwi absenoldebau oherwydd salwch Covid19. Yn ôl ein gwaith modelu, mae'r sefyllfa waethaf yn dangos y gellid bod angen llenwi bwlch staffio oherwydd salwch Covid19 ar lefel rywle rhwng 5.3% a 6.7% ar ei anterth. Mae'n bwysig nodi, felly, mai rhagamcan mor realistig â phosibl o'r gost ychwanegol yw'r £60,000, ac nid ffigwr sy'n diddymu'r risg ariannol yn llwyr.

<u>Caniatáu i'r gweithlu gofal gymryd eu cwota gwyliau blynyddol</u>
4.8 Fel y nodwyd uchod, un o'r rhesymau dros y llwyddiant i gynnal gwasanaethau craidd dros y misoedd diwethaf oedd y ffaith bod llawer llai o wyliau wedi'i gymryd gan aelodau staff.

4.9 Gwnaed astudiaeth fanwl o'r nifer o ddyddiau o wyliau a gymerwyd dros yr un cyfnod yn 2019 a 2020. Dangosodd hyn bod angen cyfwerth â 18 person yn gweithio 20 awr yr wythnos tan ddiwedd y flwyddyn ariannol, er mwyn i'r gweithlu arferol fedru cymryd eu cwota llawn o wyliau.

4.10 Er mwyn sicrhau bod y gweithlu ar gael i ôl-lenwi'r staff sydd angen cymryd eu gwyliau, mae angen adnabod **£135,000** o arian unwaith ac am byth eleni.

<u>Sicrhau capasiti ymchwydd i ymateb i'r galw am ofal oherwydd Covid19</u>
4.11 Mae gan y Cyngor gynllun pendant ar gyfer ymateb i gynnydd yn y galw am ofal allai ein hwynebu o ganlyniad i Covid19. Camau cyntaf y cynllun hwn fyddai agor gwelyau ychwanegol mewn 3 o'i gartrefi preswyl mewnol, ac yna agor canolfannau gofal yng ngwersyll Glan Llyn ac yng nghanolfan Plas Menai.

4.12 Drwy ddefnyddio data modelu cenedlaethol, gellir gwneud rhagdybiaethau ynglŷn â phryd y gallem orfod gweithredu ar y cynllun hwn. Mae cynlluniau wedi eu paratoi yn cyfrifo'r nifer o staff fyddai eu hangen ar wahanol gyfnodau.

4.13 Y gobaith yw na fyddai angen yr holl gapasiti ychwanegol am fwy nag ychydig wythnosau, ond gwyddom mai'r tebygrwydd yw y gwelwn effeithiau Covid19 ar y galw am ofal am fisoedd os nad blynyddoedd. Teimlir bod angen sicrhau lefel dderbyniol o wytnwch i'r gwasanaeth a digon o hyblygrwydd i fedru wynebu'r angen cynyddol am wasanaethau adsefydlu ('rehabilitation'). Er mwyn denu'r gweithlu angenrheidiol, argymhellir fod angen cynnig cyfleon i bobl gael swyddi parhaol gyda'r Cyngor.

4.14 Er mwyn cynnal gwasanaethau i nifer uwch o bobl o fewn 3 o gartrefi'r Cyngor ar draws ardal ddaearyddol eang, bydd angen cyfwerth â 30 aelod ychwanegol o staff yn gweithio 20 awr yr wythnos. Byddai hyn ar gost o **£120,000** yn y flwyddyn ariannol hon, a **£390,000** yn 2021/22.

4.15 Ar ddiwedd Mawrth 2022, byddai angen adolygu maint y gweithlu ochr yn ochr â'r galw. Rhagwelir y bydd galw yn cynyddu oherwydd natur demograffig y Sir (hyd yn oed pe na bai Covid19 wedi ein taro). Hefyd, gwyddom bod canran uchel o'r gweithlu cyfredol yn agosáu at oed ymddeol. Mae'r amrywiol ffactorau yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y byddem angen y gweithlu i'r tymor hwy.

4.16 Yn ychwanegol i'r 30 person uchod y byddem yn eu recriwtio ar gytundebau parhaol, mae rhagamcanion yn nodi y byddai angen rhwng 16 a 62 aelod o staff (ar sail gweithio 20 awr yr wythnos) ychwanegol er mwyn cynnal gwasanaethau capasiti ymchwydd. Byddai'r union niferoedd yn amrwyio yn ôl lefel y galw a'r nifer o achosion o bobl â Covid19 sydd angen gofal.

4.17 Bwriad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yw sicrhau gweithlu dros dro o wahanol ffynhonnellau yn cynnwys recriwtio, talu am staff asiant a chael staff o'r banc gweithwyr iechyd. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant o hyd at **£60,000**hyd at ddiwedd Mawrth 2021 tuag at gost y gweithlu hwn

4.18 Pe bai angen gweithlu ychwanegol uwchlaw hyn, y bwriad yw cymeryd camau i hyfforddi ac ad-leoli staff sy'n gweithio o fewn meysydd eraill o fewn y Cyngor. Mae modelau cenedlaethol yn taflunio cyfnod o tua 2 fis pan fyddem yn gweld cynnydd sydyn a sylweddol mewn achosion. Bydd angen cadw golwg manwl ar union lefel y galw a'r angen am weithlu ychwanegol er mwyn addasu ein cynlluniau yn amserol, gan gadw mewn cof bod angen amser i hyfforddi a pharataoi gweithlu ar gyfer y gwaith dan sylw.

Crynodeb o'r anghenion gweithlu a'r costau cysylltiedig

4.19 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r anghenion gweithlu y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo gwariant ar eu cyfer, i gyfarch camau penodol. Noder bod y costau wedi eu hamcangyfrif ar sail £12.50 yr awr, sef costau cyflogi mewnol (yn cynnwys yswiriant gwladol a phensiwn). Gallai'r gost fod rhywfaint yn uwch pe bai angen penodi am gyfnodau estynedig, er mwyn cyfarch costau fel cyfnodau salwch a gwyliau, neu pe bai angen talu i asiant am staff. Gallai hefyd fod rhywfaint yn is, ee. os nad oes angen talu cyfraniadau pensiwn :

| | Nifer staff yn gweithio 20 awr yr wythnos y byddwn yn debygol o fod eu hangen | Cyllid y gofynnir am yr hawl i wario at 31.3.21, ar sail unwaith ac am byth (£) | Cyllid y gofynnir am yr hawl i'w wario yn ystod 2021/22 i ariannu cytundebau parhaol (£) |
|---|---|---|---|
| Absenoldeb oherwydd salwch Covid19 | Rhwng 11 a 22 ar unrhyw adeg | 60,000 | |
| Sicrhau bod y gweithlu gofal yn medru cymryd eu cwota gwyliau blynyddol | 18 | 135,000 | |
| Sicrhau capasiti ymchwydd i ymateb i'r galw uwch am ofal oherwydd Covid19 : | | | |
| 1. Agor gwelyau ychwanegol mewn 3 cartref preswyl mewnol | 30 | 120,000 | 390,000 |
| 2. Agor canolfannau gofal yng ngwersyll Glan Llyn ac yng nghanolfan Plas Menai | Rhwng 16 a 62 aelod o staff ar unrhyw adeg | 60,000 | |
| **CYFANSWM** | | **375,000** | **390,000** |

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Os caiff y gwariant hwn ei gymeradwyo, y bwriad yw cymryd camau brys i weithredu ymgyrch recriwtio i swyddi parhaol a swyddi dros dro, a chanfod staff o amrywiol ffynhonnellau all fod ar gael i ymgymryd â gwaith gofal am gyfnodau byr.

5.2 Disgwylir y bydd yr holl wariant y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn wedi ei wneud erbyn diwedd Mawrth 2022.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 Nid oes unrhyw ymgynghoriadau penodol wedi eu cynnal, ond mae'r holl ddata sydd y tu cefn i'r Cynllun Gweithlu wedi ei gasglu gan, a'i drafod gyda'r darparwyr gofal mewnol ac allanol yn Ngwynedd.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n nodi sylwadau y Prif Swyddog Cyllid ynglŷn a ffynonellau ariannu y cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rwy'n fodlon â phriodoldeb y ffordd yma ymlaen.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cadarnhaf fod y gwariant a gynhigir yn yr adroddiad uchod yn ychwanegol i'r rhagolygon gwariant sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad Adolygiad Cyllideb Refeniw 2020/21 ar raglen y cyfarfod Cabinet yma.

Byddwn yn ceisio hawlio y rhan helaeth o'r £375,000 yn 2020/21 o gronfa benodol sydd wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol dalu costau uwch yn sgil Covid-19. Nid oes unrhyw wybodaeth am gronfa debyg erbyn 2021/22, ac mae trefniadau caeth yn cyfyngu hawliadau 2020/21. Felly, bydd angen i'r Cabinet danysgrifennu'r cyfan o'r £765,000 (£375,000 + £390,000) o falansau'r Cyngor am y tro, hyd nes cawn gadarnhad faint o grant Covid-19 gellid hawlio.

Nid yw'n arferol i'r Cyngor ganiatáu i wasanaethau ariannu swyddi (cytundebau cyflogaeth) parhaol o gyllideb un-tro. Fodd bynnag, rwy'n cefnogi'r bwriad yn yr amgylchiadau unigryw yma, oherwydd y galw oherwydd yr argyfwng Covid-19 a thrafferthion recriwtio i gytundebau dros-dro, ynghyd â throsiant cymharol uchel mewn swyddi gofal perthnasol sy'n lleddfu'r ymrwymiad hir-dymor.

---